Cyngor Cymuned Cwm Cadnant.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Plwyf, Llandegfan, Nos FERCHER, 10fed EBRILL 2019.

COFNOD:

1747. PRESENNOL:

Cynghorydd Mr Idris Alan Jones (Cadeirydd), Mrs Jean Davidson, Mrs Nia Foulkes, Mrs Nia Wyn Jones, Mr Tom Cooke, Mr Eurfryn Davies, Mr Gareth Griffiths, Mr John Wyn Griffith, Mr John Griffiths, Mr Alun Roberts a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

1748. YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Ms Joan Kirkham & Cynghorydd Sirol Mr Carwyn Jones.

1749. CROESO.

1749.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng Idris Alan Jones.

1749.2 Yn arbennig, croesawyd aelod newydd Mr Gareth Griffiths i'r cyfarfod ac fe arwyddodd datganiad derbyn swydd Cynghorwr Cymunedol ac fe cafodd gopi dogfen Côd Ymddygiad y Cyngor.

1749.3 Hefyd, croesawyd Ms Rebecca Pritchard & Mr Seimon Hunt o Menter Môn i'r cyfarfod er mwyn adrodd a trafod cynllun rheoli Gwarchodfa Natur Lleol Cyttir Mawr.

1750. DATGAN DIDDORDEB PERSONOL / RHAGFARNOL.

1750.1 Ni ddangoswyd unrhyw diddordeb personol.

1751. ADRODDIAD CYNLLUN RHEOLI GWARCHODFA NATUR LLEOL CYTTIR MAWR.

1751.1 Cafwyd adroddiad llawn a chryno gan Mr Seimon Hunt yn dweud ei fod wedi treulio 6 mis yn adolygu Cynllun Rheoli ar y cyd rhwng Menter Mon a Cyngor Cymuned Cwm Cadnant ac fod y Grŵp Cynghori sydd wedi ei sefydlu wedi cyfarfod tair gwaith yn y cyfnod er mwyn sicrhau fod pob agwedd wedi'i gynnwys. Roedd Cynghorwyr Mr John Griffiths a Mr Alun Roberts yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y Grŵp yma ynghyd a deg eraill a oedd yn arbennigwyr yn y maes. Diolchodd y Cadeirydd iddo am yr adroddiad ac am y gwaith caled o greu y ddogfen newydd.

Arwyddo.....

1751.2 Roedd y Clerc heb cael cyfle i ddosbarthu y ddogfen newydd ymhlith yr aelodau ac bydd hyn yn cael ei wneud erbyn y cyfarfod nesaf er mwyn ei fabwysiadu yn swyddogol ac wedyn ei gynnwys ar wefan y Cyngor.

1752. CYWIRO & DERBYN COFNODION CYFARFODYDD.

1752.1 **Cofnodion Cyfarfod Llawn 13/02/2019** – cynnig gan Mr Alun Roberts ac eiliwyd gan Mr Tom Cooke eu bod yn gywir ac fe arwyddwyd gan y Cadeirydd.

1752.2 **Cofnodion Cyfarfod Llawn 13/03/2019** – cynnig gan Mr John Griffith ac eiliwyd gan Mr Eurfryn Davies eu bod yn gywir ac fe arwyddwyd gan y Cadeirydd.

1753. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

1753.1 **Taflunydd Newydd & Cywiro Sustem Sain y Neuadd** – parhau i ddisgwyl Cwmni Mad Sound & Lighting ymweld a'r Neuadd er mwyn cychwyn gosod y taflunydd – **disgwylir na fydd y gwaith yma yn cychwyn tan Mis Medi on bydd angen cywiro sustem sain y Neuadd erbyn Eisteddfod Bro Llandegfan dechrau Mis Gorffennaf.**

1753.2 **Tô Fflat Neuadd y Plwyf** – adroddiad fod y gwaith wedi ei cwblhau o'r diwedd.

1753.3 **Drws Tân & Ramp Allanol Neuadd y Plwyf** – roedd cais caniatad adeilad rhestredig wedi ei ganiatau gan Adran Cynllunio y Cyngor Sir ac felly bydd y Pensaer yn symud ymlaen gyda cyflwyno Cais Llawn ar gyfer y gwaith angenrheidiol.

1753.4 **Offer Newydd Cae Chwarae Llandegfan** – dywedodd y Clerc fod yna ychydig o oedi ac i ddisgwylir gweld yr offer wedi ei osod cyn diwedd yr Häf.

1753.5 **Cais Cynllunio Ynys y Big** – yn dilyn pryderon a newyddion caniatad y cais cynllunio ar farn nad oedd y Cyngor Sir wedi dilyn canllawiau cywir roedd y Clerc wedi anfon llythyr i'r Adran Cynllunio yn amlinellu pryderon y Cyngor Cymuned a gofyn iddynt ymateb erbyn y cyfarfod nesaf. Derbyniwyd ebost oddiwrth y Cyngor Sir bore cyn y cyfarfod yma ac fe ddarllenodd sylwadau llawn Adran Cynllunio y Cyngor Sir gan y Clerc. **NODWYD YR YMATEB A CADW AR FFEIL.**

1754. MATERION PRIFFYRDD.

1754.1 Nodwyd fod damwain drwg wedi digwydd unwaith eto yn ur union lle ar Ffordd Cadnant cyn cyrraedd Sgwar Borthaethwy ac dangoswyd pryderon unwaith eto am nad oedd y Cyngor Sir yn bwriadu datrys sefyllfa parcio rhwystredig ar y safle yma.

Arwyddo.....

1755 MATERION LLWYBRAU.

1755.1 Gorchymyn y Cyngor Sir – Gwyro Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 8 – **nodwyd y rhybudd gorchymyn.**

1756. MATERION CYLLID.

1756.1 Cafwyd adroddiad llawn y Clerc o Daliadau a Derbyniadau Cyfrifon y Cyngor a'r Neuadd am Mis Mawrth 2019 ac fe arwyddwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd gan cynnwys cysoniad a datganiad Banc y Cyngor.

1757. ADRODDIADAU CYNRYCHIOLWYR.

1757.1 **Cynghorydd Sirol Alun Roberts** – dywedodd fod Cwmni Alun Griffiths o Hwlffordd wedi cymeryd cytundeb o drin ffyrdd y Cyngor Sir yn dilyn helyntion Dawnus Construction Cyf ac bydd yno ychydig o oedi yn delio gyda materion cynnal a chadw sydd angen sylw brys o amgylch yr Ynys. Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi mabwysiadau Canllawiau newydd ar gyfer Polisi Cynllunio Atodol. Dywedodd y bydd y Cyngor Sir yn cynnal Ymgynghoriad ar Ddarparu Gwasanaethau Oedolion ag Anawsterau Dysgu ac nid oedd wedi anghofio trefnu ymweliad i'r Cynghorwyr a Hafan Cefni yn Langefni.

1757.2 **Grwp Seiriol – dim adroddiad.**

1757.3 **Un Llais Cymru** – adroddiad byr gan Cynghorwr John Griffiths a diolchwyd iddo gan y Cadeirydd.

1757.4 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned** – dim adroddiad.

1758. DYDDIAD CYFARFOD NESAF – 08 MAI 2019.

1758.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod.
Clowyd y cyfarfod am 9:05yh.

Arwyddo.....**CADEIRYDD**.....**DYDDIAD.**

Cwm Cadnant Community Council.

Minutes of the Monthly Meeting of the Council held in the Parish Hall, Llandegfan on Wednesday, 10th APRIL 2019.

1747. PRESENT:

Councilor Mr Idris Alan Jones (Chair), Mrs Jean Davidson, Mrs Nia Foulkes, Mrs Nia Wyn Jones, Mr Tom Cooke, Mr Eurfryn Davies,Mr Gareth Griffiths, Mr John Wyn Griffith, Mr John Griffiths, Mr Alun Roberts and Mr J Alun Foulkes (Clerk).

1748. APOLOGIES:

Councilor Ms Joan Kirkham & County Councilor Mr Carwyn Jones.

1749. WELCOME.

1749.1 The Chair, Cllr Idris Alan Jones welcomed everyone to the meeting.

1749.2 In particular, our new member, Mr Gareth Griffiths, was welcomed to his first meeting and he duly signed the declaration of acceptance of the post of Community Councilor and he received a copy of the Council's Code of Conduct.

1749.3 Also, Ms Rebecca Pritchard & Mr Seimon Hunt from Menter Môn were welcomed to the meeting to report and discuss the Cyttir Mawr Local Nature Reserve Management Plan.

1750. DECLARATION OF PERSONAL / PREJUDICIAL INTEREST.

1750.1 No personal interest was shown.

1751. LOCAL NATURE RESERVE MANAGEMENT PLAN REPORT.

1751.1 Mr Simon Hunt gave a full and concise report stating that he had spent 6 months reviewing the joint Menter Mon and Cwm Cadnant Community Management Plan and that the Advisory Group which had been established had met three times in the period. to ensure that all aspects are included in the revised plan. Councillors Mr John Griffiths and Mr Alun Roberts represented the Community Council on this Group together with ten others who were specialists in the field. The Chair thanked him for the report and for the hard work of creating the new document.

1751.2 The Clerk had not had an opportunity to circulate the new document to members and this would be done by the next meeting for official adoption and then included on the Council's website.

1752. CORRECTION & RECEIPT OF MINUTES OF MEETINGS.

1752.1 Minutes of Plenary Meeting 13/02/2019 - Mr Alun Roberts proposed and Mr Tom Cooke seconded that they were correct which the Chairman duly signed.

Sign.....

1752.2 **Minutes of Plenary Meeting 13/03/2019** - motion by Mr John Griffith and seconded by Mr Eurfryn Davies that they were correct which the Chairman duly signed.

1753. MATTERS ARISING FROM THE MINUTES.

1753.1 **New Projector & Correction of the Hall's Sound System** - awaiting Mad Sound & Lighting Company to visit the Hall to start installing the projector - it is expected that this work will not commence until September as the Hall's sound system will need to be corrected by Llandegfan Eisteddfod in early July.

1753.2 **Parish Hall Flat Roof** - report that work has finally been completed.

1753.3 **Parish Hall External Fire & Ramp** - a listed building consent application was approved by the County Council's Planning Department and therefore the Architect will proceed with submitting a Full Application for the necessary works.

1753.4 **Llandegfan Playground New Equipment** - the Clerk advised that there was a slight delay and it was expected that the equipment would be installed before the end of the Summer.

1753.5 **Ynys y Big Planning Application** - following concerns and news of the planning application's consent and opinion that the County Council had not followed correct guidelines the Clerk had sent a letter to the Planning Department outlining the Community Council's concerns and asking them to respond. An e-mail was received from the County Council in advance of this meeting and the Clerk read the full observations of the County Council's Planning Department. THE RESPONSE was NOTED and KEPT ON FILE.

1754. HIGHWAYS MATTERS.

1754.1 It was noted that a bad accident had occurred again in the exact location of Cadnant Road before reaching Menai Bridge Square and concerns were again expressed that the County Council had not resolved the parking situation at this site.

1755 FOOTPATH MATTERS.

1755.1 County Council Order - Public Footpath Diversion No. 8 - the order notice was duly noted.

Sign.....

1756. FINANCIAL MATTERS.

1756.1 The full report of the Clerk to the Council and Hall Accounts and Accounts Received for March 2019 and the report was signed by the Chairman including the reconciliation and the Council's Bank statement.

1757. REPRESENTATIVE REPORTS.

1757.1 County Councilor Alun Roberts - said that the Alun Griffiths Company from Haverfordwest had been awarded the County Council's Contract for treating the roads following the demise of Dawnus Construction Limited and there would be some delay in dealing with outstanding maintenance issues requiring urgent attention around the Island. It was noted that the County Council had adopted a new Supplementary Planning Policy Guidance. He also stated that the County Council would be undertaking a Consultation on the Provision of Services for Adults with Learning Difficulties and that he had not forgotten to arrange a visit for the Councilors to Hafan Cefni in Llangefni.

1757.2 Seiriol Group - no report.

1757.3 One Voice Wales - a short report by Councilor John Griffiths and the Chair thanked him.

1757.4 Town & Community Council Liaison Forum - no report.

1758. DATE OF NEXT MEETING - 08 MAY 2019.

1758.1 The Chair thanked members for attending the meeting. The meeting closed at 9:05 pm.

Sign.....**CHAIRMAN**.....**Date.**

CYNGOR CYMUNED CWM CADNANT COMMUNITY COUNCIL.

Rhestr Taliadau & Derbyniadau Misol y Cyngor / List of Monthly Payments & Receipts

TALIADAU / PAYMENTS – Ebrill & Mai / April & May 2019.

Dyddiad Date	Archeb Parhaol Standing Order Rhif y Siec Cheque No	Taler Payee	Disgrifiad Description	Swm Sum	TAW VAT
11/04/2019	1970	Gwynedd Supplies	Papur / Stationery	£7.01	£1.17
11/04/2019	1971	Un Llais Cymru	Aelodaeth / Membership	£331.00	
18/04/2019	S/O	J A Foulkes	Cyflog / Wage	£400.00	
18/04/2019	S/O	HMRC	PAYE	£100.00	
16/05/2019	1972	Dafydd Hughes	Torri Cae Llansadwrn	£70.00	
18/05/2019	S/O	J A Foulkes	Cyflog / Wage	£400.00	
18/05/2019	S/O	HMRC	PAYE	£100.00	

DERBYNIADAU/ RECEIPTS:

11.4.2019.	**HMRC (Ad-daliad TAW/VAT Refund)**	**£ 1,329.21**
26.4.2019.	**Cyngor Sir Ynys Mon (Priseb/Precept)**	**£10,500.00.**

Gweddill / Remaining 31 Mai / May 2019. £ 3,955.12.

CYSONI BANC / BANK RECONCILIATION.

Cyfrif Cyffredol / Current Account	**-**	**£ 1,439.35**	**+**
Cyfrif Cadw / Reserve Account	**-**	**£ 2,765.77**	**+**
Llai Sieciau heb cyflwyno / Less Unpresented cheques 1961	**-**	**£ 50.00**	**-**
TOTAL / CYFANSWM		**£ 3,955.12**	

Arwyddo/Signed..... Cadeirydd/Chairman..... 12:06:19 .....Dyddiad/Date.

CYFRIF NEUADD Y PLWYF / PARISH HALL ACCOUNT

Taliadau & Derbyniadau / Payments & Income – Ebrill & Mai / April & May 2019.

Dyddiad / Date Rhif Siec / Cheque Number Archeb Parhaol/Standing Order Debyd Uniongyrchol/Direct Debit		Taler / Payee	Swm / Amount	TAW/ VAT
11/04/2019	1449	Bridge Roofing	£ 1,900.00	
11/04/2019	1450	WM Design & Architects Ltd	£ 850.78	£141.80
08/04/2019	D/D	Cyngor Sir Ynys Mon	£ 29.00	
23/04/2019	D/D	British Telecom	£ 58.08	£9.68
23/04/2019	D/D	Scottish Power	£ 54.00	
29/04/2019	D/D	British Gas	£ 94.18	£4.48
26/04/2019	S/O	L M Hughes – Cyflog/Wages	£ 140.00	
26/04/2019	S/O	HMRC - PAYE	£ 39.49	
16/05/2019	1451	Scottish Power	£ 58.47	£2.78
16/05/2019	1452	Dafydd Hughes	£ 70.00	
08/05/2019	D/D	Cyngor Sir Ynys Mon	£ 29.00	
08/05/2019	D/D	British Gas	£ 1025.45	£48.83
23/05/2019	D/D	British Telecom	£ 58.08	£9.68
23/05/2019	D/D	Scottish Power	£ 54.00	
26/05/2019	S/O	L M Hughes – Cyflog/Wages	£ 140.00	
26/05/2019	S/O	HMRC - PAYE	£ 39.49	

DERBYNIADAU/RECEIPTS.

Cyfrif y Cyngor	£	
Llog Buddsoddiad /Investment Interest	£	
Gwersi Tai Chi Classes	£	80.00
Gwersi Pilates	£	
Criw Bore Iau	£	120.00
Able Fitness	£	.80.00
Gorsaf Pleidleisio / Polling Station	£	
Eglwys St Tegfan's Church	£	40.00
Clwb Dydd Gwener / Friday Club	£	
Merched y Wawr	£	
Grantiau	£	
Parti	£	45.00
Seiriol Alliance	£	
Rownd & Rownd	£	
Cymdeithas Bro	£	60.00
Line Dancing	£	80.00
Bible Classes	£	
Snooker Table	£	60.00
Diabetes Club	£	
Bingo	£	20.00
CYFANSWM	**£**	**585.00**

Gweddill / Remaining 31 Mai / May 2019. £ 31,115.27.

Arwyddo/Signed..... Cadeirydd/Chairman. 12:06:19 .....Dyddiad/Date.